# Y CABINET DYDD MAWRTH, 17 IONAWR 2017

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfed Wyn Edwards, Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies

**Hefyd yn bresennol-**

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd John Wynn Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eitem 9: Darpariaeth Toiledau Cyhoeddus yng Nghwynedd.

Oherwydd natur Eitem 9 a oedd yn argymell partneriaethu gyda Cynghorau Cymuned bu i'r canlynol ddatgan buddiant personol:

Dyfed Edwards – Aelod o Gyngor Cymuned Llanllyfni
Dyfrig Siencyn – Aelod o Gyngor Tref Dolgellau
Gareth Thomas – Cadeirydd Cyngor Tref Penrhyndeudraeth
Mandy Williams-Davies – Aelod o Gyngor Tref Ffestiniog
Mair Rowlands – Aelod o Gyngor Tref Dinas Bangor
W. Gareth Roberts – Aelod o Gyngor Cymuned Aberdaron
Ioan Thomas – Aelod o Gynfor Tre Caernarfon
Peredur Jenkins – Aelod o Gyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain

Eitem 11: Adolygu Darpareth Addysg Gynradd Dalgylch Bangor.

Bu i Mair Rowlands, Dafydd Meurig a Lesley Day ddatgan buddiant personol gan eu bod yn aelodau o Gorff Llywodraethu mewn ysgolion yn Nalgylch Bangor. Mae Mair Rowlands yn aelod o Gorff Llywodaethu Ysgol Cae Top, Bangor. Dafydd Meurig yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Llandygai, ac mae Lesley Day yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Hirael Bangor.

Cynghorodd Iwan Evans, Swyddog Monitro ar y buddiannau personol a pwysleisio nad oeddent yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac felly fod gan yr aelodau yr hawl i gymryd rhan y drafodaeth.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD AR RAGFYR 13EG 2016

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 13eg o Ragfyr, 2016, fel rhai cywir.

## 6. CYNLLUN GWEITHREDU HENEIDDIO'N DDA

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Roberts.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd y Cynllun Heneiddio’n Dda Gwynedd fel dogfen weithredol ar gyfer hybu gweithio yn ataliol ac yn draws adrannol ym maes Pobl Hyn, a chyfrannu at yr agenda llesiant.

**TRAFODAETH**

Nododd Gareth Roberts ei falchder o gyflwyno’r adroddiad yma i’r Cabinet. Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru “Helpu Popl Hyn I Fyw’n Annibynol: A yw Cynghorau’n Gwneud Digon?” yw cefndir y cynllun, ble sylweddolwyd fod angen i Gynllun Heneiddio yn dda’r Cyngor adlewyrchu cyfraniad yr holl wasanaethau’r Cyngor i agenda ataliol heneiddio’n dda. Mae’r gwaith wedi cael ei wneud er mwyn datblygu y ddogfen. Pwysleiswyd fod y ddogfen angen bod yn ddogfen fyw ac y bydd angen ychwanegu at y ddogfen yn gyson.

Ail hanner yr adroddiad yw’r cynllun ei hun, gyda enghraifftiau o’r gwaith da sydd yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Enghraifft penodol a ddefynddwyd oedd rhaglen “Hen Blant Bach” a gafodd ei dangos ar S4C – ble roedd cydweithio a cyd-dreulio amser rhwng plant bach a pobl hyn mewn canolfan ddydd yng Nghaernarfon. Nodwyd fod y proseict wedi bod yn llwyddiant ac gwahaniaeth wedi ei weld ym mywyd y plant a’r bobl hyn.

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth

- Delweddau yn y ddogfen yn ddelweddau o ferched yn y gweithgareddau hyn yn codi cwestiwn o yw’r gweithgareddau sydd ar gael wedi ei hanelu at ferched yn unig. A yw hyn yn rhywbeth i’w ystyried pan yn trefnu digwyddiadau yn y dyfodol? Ymatebodd Ann Pari Williams drwy ddiolch am godi’r sylw a bydd y lluniau yn cael ei diwygio er mwyn cael darlun gwell o’r gweithgareddau sydd yn digwydd yn y gymuned i ddynion a merched.
- Hwn i raddau yn edrych ar broblemau ar lefel micro ond os yn edrych ar lefel macro mae bygythiadau fel gwasanaethau yn dod i ben ac

unigrwydd. Cynllun yma yn edrych yn ei gyfanrwydd ac yn ymateb ac adnabod blychau yn y gwasanaeth.

- Pwysig cadw'r cynllun hwn mewn cof wrth drin a thrafod materion eraill, ac mae'n cydfynd ag egwyddorion yn Neddf Llesiant (Cymru) 2014.

## 7. EFFAITH Y DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 A'R BOLISI CODI TAL AM WASANAETHAU OEDOLION

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. W. Gareth Roberts.

**PENDERFYNWYD**

Addasu'r polisi codi tal ar sail y cynigion a ymgynghorwyd arnynt ac sydd wedi eu gosod yn Atodiad Ch o'r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Tynnwyd sylw fod angen cywiro brawddeg ar waelod tudalen 78 i ddarllen:
"Mewn amgylchiadau prin bydd y Cyngor yn gallu negodi contractau rhatach gyda darparwyr gofal. Os bydd cost y gofal yn rhatach na ***£16.00*** yr awr bydd y defnyddiwr gwasanarth yn talu'r raddfa rhatach".

Yn dilyn argymhelliad gan y Cabinet yn flaenorol, yr eitem wedi dod yn ôl yn dilyn ymghynghoriad a defnyddwyr Gwasanaeth. Bu i'r ymgynghoriad ddangos for 58% yn derbyn fod angen codi tal am wasanaeth. £60 fydd yr uchafswm y bydd modd i'r Cyngor godi am y gwasanaethau dibreswyl yr wythnos, ond mae'r Llywodraeth ar ganol ymgynghoriaeth am yr uchafswm wythnosol.

Nodwyd fod gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar beth mae siroedd eraill yn ei wneud ac yn nodi tebygrwydd rhwng Gwynedd a'r siroedd eraill.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd os yw'r newid yn dod i rym ym Mis Ebrill fod angen sicrhau cyfathrebu clir gyda'r defnyddwyr gwasanaeth. Pwysleiswyd fod angen cyfathrebu ym mhob ffordd posib er mwyn sicrhau fod pob defnyddiwr gwasanaeth yn deall y newidiadau.

## 8. NEWID LLWBR DEWISIOL GWELLIANT FFORDD / MYNEDIAD LLANBEDR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Peidio gwarchod y llwybr gwreiddiol ar gyfer ffordd osgoi Llanbedr a chefnogi'r cynllun yn Atodlen B o'r adroddiad ar gyfer y llwybr ffordd mynediad newydd yn yr ardal.

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod cynlluniau wedi bod ar gyfer creu ffordd osgoi yn Llanbedr ers y 1950au, a llwybr wedi ei warchod ers 1953. Manylodd fod hanes cymhleth ynghlwm ar cynlluniau i greu ffordd osgoi dros y blynyddoedd ond newid wedi bod ers i'r 2012 pan y bu i Lywodraeth Cymru greu ardaloedd Menter. Un o'r ardaloedd rhain yw Canolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr. Ers 2012 gwaith wedi ei wneud i adnabod llwybr newydd, a fydd yn fynediad newydd i'r ganolfan yn ogystal a ffordd osgoi.

Manylodd y Pennaeth Rheoleiddio ar y broses o ddewis llwybr. Mae nifer o ymghynhoriadau wedi cael ei gwneud gyda'r gymuned leol a lled gytundeb wedi ei benderfynu ar y ffordd sy'n diwallu poenau'r gymuned ynghyd a cyflwyno mynediad o safon i'r Ganolfan Awyrofod.

Nododd Annwen Hughes (Cynghorydd Lleol) fod y gymuned leol wedi bod yn sgreichian am y ffordd osgoi. Pwysleiswyd fod gwir angen y ffordd osgoi er mwyn sicrhau swyddi o safon uchel i'r ardal yn y Ganolfan Awyrofod. Cyngor Cymuned wedi bod yn bryderus gyda'r newid i'r llwybr ond dilyn trafodaeth maent yn barod i ddangos cefnogaeth i'r llwybr yma.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd uchafswm cyflymder y ffordd ac oblygiadau hyn ar faint y tir fydd ei angen ar gyfer creu y ffordd. Nodwyd fod trafodaethau wedi bod gyda'r tirfeddianwyr am faint y ffordd, ac nad yw maint y ffordd yn newid rhyw lawer pan yn newid uchafswm cyflymder y ffordd.
- Nodwyd o fod angen creu fforwm er mwyn trafod y ffordd ymhellachgyda'r bobl leol, a sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth gyswllt un aelod o staff iddynt fel eu bod yn magu perthynas ac yn ymwybodol fod yr aelod o staff yno i wrando arnynt.

## 9. DARPARIAETH TOILEDAU CYHOEDDUS YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards

**PENDERFYNWYD**

**I.** Cyflawni'r toriad o £244,000 yn y gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeisefol drwy wireddu'r Cynllun Partneriaeth gyda chynghorau Cymuned a Thref er mwyn cadw'r mwyafrif o doiledau cyhoeddus presennol y sir ar agor i'r dyfodol.

**II.** Awdurdoi'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistefol i gytundebu gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref sydd wedi datgan ddiddordeb mewn partneriaethu.

**TRAFODAETH**

Llawer o gynghorau Tref a Chymuned wedi ymateb i'r cynnig i gymryd cyfrifoldeb o doiledau cyhoeddus. Nodwyd fod amryw o gwmnïau wedi bod yn fodlon i gymryd y cyfrifoldeb yn ogystal ac mae hyn yn galonogol iawn. Diolchodd Dyfed Edwards i'r rhestr faith o gynghorau sydd wedi cytuno i gymryd y cyfrifoldebau (rhestr i'w gweld yn atodiad 1 o'r adroddiad). Mae trafodaethau yn parhau gyda rhai cynghorau er mwyn dod i benderfyniad terfynol.

Nododd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol fod y gynllun hyd yma wedi rhagori'r sefyllfa oedd yn flaenorol, sef fod y cynllun gwreiddiol yr oedd y Cyngor wedi gorfod ei fabwysiadu er mwyn sicrhau'r arbedion angenrheidiol yn golygu cau 50 allan o 72 o doiledau cyhoeddus. Bellach fodd bynnag bydd isafswm o 52 o'r toiledau cyhoeddus yn parhau ar agor. Pwysleiswyd fod asesiad cydraddoldeb wedi ei wneud, hyd yn hyn mae'r cynllun parnertiaethu yn cyfarch yr aseisiad cydraddoldeb. Nodwyd yn ogystal fod y cynllun partneriaethu yn rhagori pan yn trafod y Ddeddfwriaeth presennol a'r ddeddfwriaeth sydd i ddod.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd hanes yr eitem yw ymghynhoriad Her Gwynedd, a'r ffaith fod ymatebion pobl Gwynedd wedi amlygu fod y cynllun gwreiddiol yn lai o flaenoriaeth na dewisiadau eraill oedd ger bron, ond fod hyn bellach yn newyddion arbennig o dda fod cynifer o gynghorau lleol yn fodlon cydweithio a ni i'w cadw ar agor gyda rhai yn fodlon cymryd y baich o redeg y gwasanaeth hyd yn oed.
- Gwasanaeth toiledau cyhoeddus yn wasanaeth ble mae hi yn bosib i gynghorau lleol redeg y gwasanaeth.
- Darpariaeth amgen wedi ei gynnig gan gwmnïau lleol, ac yn aml mae'r ddarpariaeth amgen gyda darpariaeth a mynediad gwell i'r anabl.

Trafodaeth gyda'r cynghorau wedi bod yn drafodaeth aeddfed iawn ac mae hyn wedi galluogi i greu perthynas newydd gyda'r cyfle i adeiladu ar y perthynas hwn yn y dyfodol.

## 10. CYNLLUN TROEDFFORDD, FFORDD COETMOR, BETHESDA

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Cyfalafu £120,000 o danwariant yr Adran Rheoleiddio ar gyfer cyfraniad at wellaint diogelwch drwy ddarparu troedffordd rhwng Plas Ffrancon a Ffordd Hen Barc ar hyd Ffordd Coetmor, Bethesda.

**TRAFODAETH**

Nodwyd fod hanes hir i'r cynllun hwn i greu troedffordd ar ffordd prysur gyda niferoedd y ceir sydd yn ei defnyddio yn codi. Pwysleiswyd fod Aelod Lleol yn cefnogi'r cynllun.

Ymgeiswyd am arian gan Llywodraeth yn 2011 ond yn aflwyddiannus, ond ers hynny mae mwy o bwyslais gan y Llywodraeth ar deithio llesiol. Nodwyd eu bod, os yn llwyddiannus gyda arian y tanwariant, am ddefnyddio'r arian fel arian cyfatebol er mwyn denu bid y Llywodraeth.

Ychwangeodd y Pennaeth Rheoleiddio fod tri thema i greu bid ariannol i'r Llywodraeth, a'r thema sydd yn cyd-fynd a'r cais hwn fydd "Llwybrau diogel i Ysgolion a Chymunedau".

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Wrth edrych ar farn y Pennaeth Cyllid i'r adroddiad mae'n cadarnhau fod arian ar gael i'w ddefnyddio fel tanwariant ac felly dangos cefnogaeth i'r cynllun.
- Holwyd os oes oblygiadau prynu tir ynghlwm a'r cynllun.

Ymatebodd y Pennaeth Rheoleiddio drwy nodi fod fel rheol ar gyfer gynllun fel hyn y buasai angen prynu strip o dir i greu y droedffordd, ond ar gyfer y cynllun hwn mae'r tirfeddianwr wedi cynnig rhoi'r tir am ddim i'r Cyngor. Cytundeb wedi ei wneud gyda'r tirfeddianwr.

## 11. ADOLYGU DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD DALGYLCH BANGOR

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNWYD**

Cychwyn trafodaethau lleol yn unol a'r adroddiad ynglyn ag adolgygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor

**TRAFODAETH**

Mae'r Adran Addysg wedi adnabod fod angen edrych ar ddarpariaeth addysg gynradd ym Mangor. Mae gan y Llywodraeth raglen "Ysgolion i'r Unfed Ganrif ar Hugain" sydd yn dod i ddiwedd Band A y rhaglen, bwriad yr adran oedd i gyflwyno cynllun o fewn Band B y rhaglen yma. Nodwyd fod y sefyllfa bellach wedi newid gan fod dwy ysgol o fewn y dalgylch dros ei gapasiti a gyda datblygiad tai yn y Goetre Uchaf bydd 90 o blant ychwanegol yn yr ardal. Yn ogystal a hyn nodwyd fod cyflwr un o'r ysgolion yn wael.

Bu i Ysgol Glan Cegin dderbyn grant o Fand A rhaglen "Ysgolion i'r Unfed Ganrif ar Hugain", ac mae'r gwaith yn mynd rhagddi. Gan fod cynlluniau blaenorol yr Adran Addysg ag ariannwyd gan y Llywodraeth wedi bod yn llwyddiant cafodd yr adran wahaodd i ymgeisio am grant ychwanegol, ac maent wedi bod yn llwyddiannus. Canlyniad hyn yw fod £6.3miliwn ar gael gan y Llywodraeth, £1.1miliwn ar gael o galyniad i ddatblygiad tai a £4.5miliwn o gynllun rheoli asedau'r Cyngor a bydd £750,000 o ganlyniad i werthu asedau sydd yn golygu fod £12.7miliwn ar gael ar gyfer y datblygu adnoddau addysg yn y ddinas.

Pwysleiswyd nad oes cynllun ar gyfer hyn dim ond cais i gychwyn y broses. Cam 1 y broses fydd i sefydlu Pwyllgor Adolygu Dalgylch a fydd yn cynnwys aelodau lleol, penaethiaid yr ysgolion a cynrychiolwyr o'r Llywodraethwyr. Bydd y cynllun yn dod yn ôl i'r Cabinet erbyn mis Gorffennaf 2017.

Mynegodd yr Aelod Lleol – Lesley Day – fod mwy o ysgolion wedi bod yng ngwaelod Bangor yn ystod y blynyddoedd, nododd ei phryder y bydd mwy o ysgolion yn mynd i ardal Penrhosgarnedd.

Nododd y Prif Weithredwr fod angen ystyried anghenion Bangor er mwyn sefydlu beth yw'r gwir angen ac ystyried cost hynny yn hytrach nag edrych am gynllun i wario £12.7m.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
- Angen edrych i'r tymor hir – er fod y bwriad yma yn edrych yn benodol ar ddarpariaeth gynradd angen edrych ar ddarpariaeth uwchradd ar gyfer y dyfodol.

## 12. ADRODDIAD PERFFORMIAD Y DIRPRWY ARWEINYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Y Dirprwy Arweinydd yn nodi fod modd edrych ar yr adroddiad ac ar y wyneb mai ychydig o gynnydd sydd wedi bod. Ond pwysleisiodd fod y gwaith yn parhau ac yn waith sy'n anodd ei fesur gan fod pynciau megis y Gymraeg yn gynlluniau canolig a hir dymor.

Manylodd ar y rhwystredigaeth mae'n deimlo gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wrth edrych ar y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus gan ei fod yn teimlo ei fod yn symud yn araf.

Cwestiynau yn codi wrth edrych ar hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ardal ac os yn gwneud drwy'r dulliau cywir. Edrychir ymlaen at gyfarfod a'r Gweinidog dros yw iaith i drafod hyrwyddo'r Gymraeg. Nododd ei fod wedi ymateb i strategaeth Iaith y Llywodraeth ac wedi nodi mai prif broblem yr ardal yw hyrwyddo defnydd o'r iaith bob dydd.

Cyfeiriodd yr Adroddiad at y Panel Trigolion er mwyn casglu barn a dod o hyd i brif bethau sy'n poeni trigolion Gwynedd. Y prif bethau yw glendid y strydoedd, casglu gwastraff a thorri gwair.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
- Wedi bod mewn trafodaethau a phenaethiaid Adran y Cyngor pwysig fod y negeseuon yn cael ei rheadru i lawr i'r haenau eraill o staff.

- Ailedrych ar safonau iaith am gychwyn, mae'r rhain yn rhoi sail glir a chadarn i isafswm o ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Modd i'r Cyngor gyflawni llawer dros yr iaith tu hwnt i Wynedd drwy bartneriaid cyhoeddus y Cyngor.

Holwyd sut mae'r tîm ymgysylltu am gadw momentwm yn dilyn ymgynghoriad Her Gwynedd - nodwyd nad yw Panel Trigolion ddim yn cyrraedd diwedd ei hoes ac mae angen atgyfnerthu'r panel. Pwysig nodi nad Ffordd Gwynedd yw'r unig ffordd o ymgysylltu llawer o fathau gwahanol o gasglu barn.

## 13. BLAENRAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyd y Flaenraglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod, yn amodol ar wneud yr addasiadau isod:

- Cyng. Dyfed Edwards – Nodi fod dyddiad bellach ar gyfer eitem Prynu Tir yn ardal Llanrug
- Cyng. Gareth Thomas – Newid enw'r Aelod Cabinet yn yr eitem Cyflwyniad gan Ffion Johnstone.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.10 y.h.

**CADEIRYDD**